**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS/MS
Chair
Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee
Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

18 Rhagfyr 2020

Annwyl Mike

Yn dilyn fy llythyr ar 13 Tachwedd, rwyf bellach mewn sefyllfa i'ch diweddaru ar nifer o bwyntiau mewn perthynas â'r Fframwaith Drafft Sylweddau Peryglus. Mae'r wybodaeth ganlynol yn diweddaru'r ymatebion a roddais o'r blaen:

**Proses graffu a llinell amser**

**9. A allwch gadarnhau y bydd y fframwaith yn cynnwys y Rhyddid Gwybodaeth dros dro, y Concordat a'r MOU wedi'i ddiweddaru y cyfeirir ato yn y FOA drafft?**

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y cyfeirir ato yn y fframwaith cytundeb amlinellol dros dro yn ymwneud â Rheoliadau COMAH nad yw'n rhan o'r fframwaith hwn. Ers imi ateb yn flaenorol, cytunwyd na fyddwn yn mynd ar drywydd concordat mwyach. Felly bydd y fframwaith yn cynnwys y testun a nodir yn y fframwaith cytundeb amlinellol dros dro yn unig, a'r rhannau gweithredol i'w nodi yw adrannau 6, 8, 11, 12 a 13.

**10. A allwch egluro a fydd y Concordat a'r MOU wedi'i ddiweddaru ar gael i'r Senedd graffu arnynt?**

Ni chynigir concordat mwyach.

**11. A allwch egluro'r llinell amser ar gyfer craffu Senedd o'r fframwaith cytundeb amlinellol dros dro a dogfennau cysylltiedig?**

Yn yr un modd â'r fframweithiau eraill, bydd gan y Senedd amser i ystyried hyn yn llawn yn 2021.

**Trefniadau monitro ac adolygu ar gyfer y fframwaith**

**13. A allwch egluro a fydd adroddiad o'r cyfarfod adolygu rhwng gweinyddiaethau'r DU ar gael i'r cyhoedd?**

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd yr adolygiad o'r fframwaith yn cynnwys rhanddeiliaid felly rhagwelir y bydd adroddiad o'r cyfarfod adolygu ar gael i'r cyhoedd.

**14. A allwch chi egluro o dan ba amgylchiadau na fyddai'n briodol cynnwys rhanddeiliaid yn y broses adolygu ar gyfer y fframwaith?**

Rydym yn bwriadu cynnwys rhanddeiliaid yn yr adolygiad ond fel gyda'r holl waith ymgysylltu dylai'r broses fod yn gymesur â'r materion sy'n cael eu hystyried. Os mai ychydig iawn o faterion sydd wedi'u codi mewn perthynas â chynllunio sylweddau peryglus yn y cyfnod cyn yr adolygiad, byddai hyn yn awgrymu y byddai dull llai ffurfiol o adolygu yn briodol.

**15. A allwch chi gadarnhau a fydd y Senedd yn gallu cyfrannu at y broses adolygu ar gyfer y fframwaith a sut?**

Ni ragwelir y bydd y Pwyllgor yn cael ei wahodd yn ffurfiol i gymryd rhan yn y broses adolygu. Fodd bynnag, byddai aelodau'r Senedd yn gallu ymgysylltu yn yr un modd â rhanddeiliaid eraill.

Rwy'n gobeithio y bydd yr ymatebion uchod yn rhoi gwybodaeth ychwanegol i chi i gynorthwyo wrth graffu'r Fframwaith Drafft. Gallaf gadarnhau y bydd y Pwyllgor yn cael ei ddiweddaru pan fyddwn wedi dod i benderfyniad ar y cyd â'r gweinyddiaethau eraill ynghylch y broses adolygu fframwaith a fformat terfynol y Fframwaith.

Yr eiddoch yn gywir



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

Cc: Y Cwnsler Cyffredinol